COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 9 MEDI 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| HJ David | RM Granville | E D Winstanley |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| M L Hughes | T Thomas | A Williams | AJ Williams |
| RL Penhale-Thomas | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe, S J Griffiths a GH Haines

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd/ Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Paul Davies | Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Melanie Jayne Evans | Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd |
| Sophie Moore | Rheolwr Grŵp - Atal a Lles |
| Debbie Morgan | Rheolwr Grŵp - Strategaeth Busnes, Perfformiad a Gwelliant |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro/ Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd E D Winstanley – Eitem 5 – Personol - Gweithwyr i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

## 124. Penodi Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Penodwyd y Cynghorydd JPD Blundell yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

## 125. Cyflwyniad Llafar gan Aelodau'r Cabinet o Drosolwg o'u Cyfeiriad Strategol a'u Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor ddatganiad llafar gan yr Arweinydd ynghylch cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Cabinet ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

## 126. Adroddiad Gwybodaeth - Targedau Cynllun Corfforaethol 2024/25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth yr argymhelliad canlynol:<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol, Targedau neu Flaenoriaethau ar ôl craffu ar y Cynllun drafft. Yn ogystal, cytunodd yr Aelodau i anfon unrhyw ymholiadau am yr adroddiad at y tîm Craffu i'w trafod gyda Swyddogion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

## 127. Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion Cyffredinol**<br><br>2. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r holl adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor gynnwys pwyslais cryfach a gwell ar oblygiadau ariannol cynigion a datblygiadau gwasanaethau.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>3. Ariannwyd nifer o brosiectau gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth fanylach, gan gynnwys faint o gyllid a dderbyniwyd a'r effaith bosibl ar y meysydd hynny o fewn y rhan o'r gyllideb sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer llwybrau tuag at gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor i'r adroddiad ar yr Oedi yn y Pecyn Gofal gan y Tîm Adnoddau Cymunedol, |

| | |
|---|---|
| | sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ar 23 Medi 2024, gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor i'r Cynllun Adfer a ystyriwyd gan y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>6. Trafododd yr Aelodau gyfleoedd yn ystod y dydd i drigolion ag anableddau dysgu a'r posibilrwydd o ddefnyddio grantiau i gefnogi model newydd ar gyfer eu cyflawni a **gofynnodd** y pwyllgor i'r Adolygiad o Gyfleoedd yn ystod y Dydd gael ei adrodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 yn y dyfodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

## 128. Adroddiad Blynyddol Craffu 2022/23 a 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol:<br><br>**Sylwadau**<br><br>7. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch nifer y galwadau a adroddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a chefnogodd yn gryf y flaenoriaeth a amlygwyd am bwyslais ar Graffu cyn penderfynu wrth symud ymlaen cyn gwneud unrhyw benderfyniadau mawr i'r Cabinet. Cydnabuwyd bod cynllunio'r Blaenraglen Waith, a chyfathrebu yn hollbwysig i hyn lwyddo.<br><br>**Argymhellion**<br><br>8. **Argymhellodd** y Pwyllgor pan fydd adroddiadau'n ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau gwasanaethau, y dylid ystyried cyfathrebu â'r holl Aelodau Craffu ynghylch hyn fel eu bod yn cael cyfle i ymgysylltu drwy eu cyd-aelodau sy'n eistedd ar y Pwyllgor a/neu arsylwi ar y cyfarfod.<br><br>9. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys data cymharol ar nifer yr alwadau yn y blynyddoedd blaenorol. |

| | |
|---|---|
| | 10. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried sicrhau bod mwy o gynrychiolwyr allanol yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd craffu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

**129. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>11. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2025 i ystyried Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2025-26 - 2028-29, er mwyn sicrhau bod Aelodau'n gallu cyfeirio eu cwestiynau at y Pwyllgor priodol i gyfrannu'n llawn ac osgoi dyblygu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

**130. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Medi 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:46.